Ymddiriedaeth Caredigrwydd Gobaith

**“ Gyda’n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi”**

**POLISI CLWYDALYN**

# Polisi chwythu’r Chwiban

**IMS/HR-POL-01c**
**Fersiwn 6**

**Gallwn ddarparu’r ddogfen hon mewn fformatau eraill. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â’r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk**

ClwydAlyn

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

ClwydAlyn Housing Limited
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

## Ynglŷn â ClwydAlyn
Ein cenhadaeth yw trechu tlodi, ac rydym yn gwneud ein gorau i gefnogi ein preswylwyr i gael gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd gwirfoddoli.

## Sut rydym yn gweithredu

Ymddiriedaeth | Caredigrwydd | Gobaith

## Cysylltwch â ni

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth i Gwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 17:00 Rhadffôn o linell tir 0800 183 5757 neu 01745 536800 |
| Gwaith trwsio argyfwng y tu allan i oriau | 0300 1233091 neu anfonwch neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges). |
| E-bost/ar-lein | help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ https://www.myclwydalyn.co.uk/ |
| Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JD |

## #Dylanwadwch
Hoffech chi gael cyfle i roi adborth ar y pethau sy’n bwysig i chi fel preswylydd ClwydAlyn? Hoffech chi ein helpu i lunio a gwella’r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Allwch chi sbario munud neu ddau, neu ychydig oriau bob mis? Os felly, dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, felly cliciwch ar ein ffurflen #Dylanwadwch neu anfonwch e-bost atom influenceus@clwydalyn.co.uk

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol i bawb. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â’r tîm rheoli dogfennau yn hsqe@clwydalyn.co.uk

## Gwybodaeth am Ddogfennau /Rheoli Dogfennau
Mae’r ddogfen hon yn ddatganiad y cytunwyd arno sy’n cynnwys y set o egwyddorion sy’n gweithredu fel canllawiau i gyflawni nodau ClwydAlyn. Ni ellir newid y ddogfen hon oni bai y rhoddir awdurdod i wneud hynny gan ddefnyddio’r nodyn awdurdodi newid dogfen QF-F-10.

Cedwir y copi meistr gan y Rheolwr Dogfennau, cedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Manylion Adolygu /Rheswm dros newid | Awdur | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| V1 | Dogfen Wreiddiol. Cymeradwywyd gan y Byrddau a’r Rheolwyr | T. Henderson | 07/11/2016 |
| V2 | Dogfen wedi’i diweddaru. Cymeradwywyd gan y Byrddau a’r Rheolwyr | T. Henderson | 26/07/2018 |
| V3 | Dogfen wedi’i diweddaru a’i hailfformatio. Cymeradwywyd gan y Byrddau a’r Rheolwyr | R. Williams | 20/01/2020 |
| V4 | Diweddarwyd. Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pobl 17/04/2023 | E. Gilbert | 06/06/2023 |
| V5 | Diweddarwyd i gydymffurfio ag Atal Twyll, Cyfeirnod AML. Cymeradwywyd yn y Pwyllgor Sicrwydd 26/01/2026 | S. Williams | 26/01/2026 |
| V6 | Cyfeiriad wedi'i ddiweddaru at y Polisi Cwynion | A Williams | 11/05/2026 |

## Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 3

2 Beth yw Chwythu'r Chwiban? ..... 3

3 I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys? ..... 4

4 Pa faterion mae'r polisi hwn yn ymdrin â nhw? ..... 4

5 Cyfrinachedd ..... 6

6 Amddiffyn a Chymorth ..... 7

7 Gweithdrefn a Reportio ..... 7

8 Cyfeiriadau ..... 8

# 1 Cyflwyniad

1.1 Yma yn ClwydAlyn, rydym wedi ymrwymo i gynnal ein busnes yn onest a gydag uniondeb bob amser. Yn anffodus, mae pob sefydliad yn wynebu'r perygl y bydd pethau'n mynd o chwith o dro i dro, neu y bydd ymarfer gwael, anfoesegol neu anghyfreithlon yn bodoli yn ddiarwybod hyd yn oed.

Rydym wedi ymrwymo i gael diwylliant agored ac atebol fel y gallwn atal sefyllfaoedd o'r fath rhag codi neu fynd i'r afael â nhw os byddant yn digwydd.

1.2 Nodau'r polisi hwn yw:

- Annog a chefnogi pobl i reportio unrhyw achos ymddangosiadol o gamymddwyn cyn gynted â phosibl, gan wybod y bydd pryderon yn cael eu hystyried o ddifrif ac yr ymchwilir iddynt yn briodol
- Darparu canllawiau ar sut i godi pryderon
- Darparu sicrwydd y gall pawb godi pryderon go iawn heb ofni dial, hyd yn oed os daw'n amlwg eu bod yn anghywir

# 2 Beth yw Chwythu'r Chwiban?

2.1 Ystyr 'chwythu'r chwiban' yw datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw achos a amheuir o gamymddwyn, perygl, twyll, methiant i gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch neu ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol arall yn y busnes.

2.2 Dylai unrhyw bryderon a gaiff eu datgelu o dan y polisi hwn fod er budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu y dylech gredu bod eich pryder yn effeithio ar hawliau, iechyd, neu sefyllfa ariannol y cyhoedd yn gyffredinol. Os ydych yn weithiwr cyflogedig ac mae'r mater o natur fwy unigol neu bersonol, dylech godi eich pryderon gan ddefnyddio Canllawiau'r cwmni ar Gymorth i Ddatrys Gwrthdaro. Os yw'r mater yn ymwneud ag unigolyn agored i niwed, dylech hefyd gyfeirio at ein Polisi Diogelu Oedolion a Phlant. Os ydych yn Breswyliwr, gallech hefyd gyfeirio at y Canllawiau Chwynion ar ein gwefan.

2.3 Rydym yn cydnabod y gall datgeliadau a wneir o dan y polisi hwn ymwneud â materion cyfrinachol a sensitif iawn ac efallai y byddai'n well gennych wneud

datgeliad di-enw. Fodd bynnag, yn anffodus ni allwn warantu y byddwn yn ymchwilio'n llawn i bob honiad di-enw. Gall fod yn amhosibl cynnal ymchwiliad cywir os na all yr ymchwilydd gael rhagor o wybodaeth gennych, roi adborth i chi, neu benderfynu a oedd eich datgeliad er budd y cyhoedd. Rydym yn annog pawb sy'n dymuno codi pryder i ddatgelu pwy ydynt a gellir cymryd camau i sicrhau cyfrinachedd os yw hynny'n briodol (gweler Adran 5).

2.4 Dylech godi eich pryder ar unrhyw adeg am unrhyw ddigwyddiad yn y gorffennol, rhywbeth sy'n digwydd nawr neu rydych yn credu y bydd yn digwydd o ganlyniad i unrhyw un o'r pwyntiau a nodir yn 2.1.

2.5 Fel Chwythwr Chwiban, mae amddiffyniadau yn eu lle. Ni chaiff y sawl sy'n codi pryder o dan y polisi hwn ei drin yn annheg ac ni fydd o dan anfantais mewn unrhyw ffordd am wneud hynny – gweler Adran 6.

## 3 I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys?

3.1 Mae'r polisi hwn yn gymwys i bawb sy'n gweithio i ClwydAlyn gan gynnwys;

- Pob gweithiwr cyflogedig, gan gynnwys staff contractau dim-oriau /banc a gweithwyr achlysurol
- Contractwyr ac is-gontractwyr
- Staff asiantaethau
- Ymgynghorwyr
- Myfyrwyr a gwirfoddolwyr ar brofiad gwaith
- Aelodau'r Bwrdd a Phwyllgorau
- Gall preswylwyr a'r rhai sy'n ymgeisio am swyddi gyda ClwydAlyn godi pryderon o dan y polisi hwn

3.2 Nid yw'r polisi hwn yn rhan o gontract cyflogaeth unrhyw weithiwr cyflogedig, a gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg.

## 4 Pa faterion mae'r polisi hwn yn ymdrin â nhw?

4.1 Dylech wneud datgeliad o dan y polisi hwn os oes gennych bryderon dilys ynglŷn ag unrhyw un o'r canlynol:

- mae iechyd a diogelwch rhywun mewn perygl

- esgeuluster
- gweithgarwch troseddol
- camweinyddiadau cyfiawnder
- methiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, statudol neu reoleiddiol (er enghraifft Rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Thai Cymdeithasol neu Reoliadau Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymwneud â darpariaeth gofal)
- arferion sy'n peryglu iechyd a diogelwch neu fethiant i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, statudol neu reoleiddiol (er enghraifft, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974)
- unrhyw ymddygiad anghyfreithlon a fydd yn niweidio'r amgylchedd fel tipio gwastraff yn anghyfreithlon neu arllwys llygryddion ar dir neu ddŵr
- llwgrwobrwyo
- twyll, amhriodoldeb, neu gamreoli ariannol
- mynd yn groes i'n polisïau a'n gweithdrefnau mewnol (gan gynnwys ein Cod Ymddygiad):
- ymddygiad sy'n debygol o niweidio ein henw da
- datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb awdurdod
- camymarfer proffesiynol
- achosion o dor-perthynas difrifol, gan gynnwys rhwng y Bwrdd, Staff a'r Uwch Dîm Arwain neu Weithredol
- unrhyw ymgais i guddio unrhyw un o'r uchod

4.2 Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw bryderon rhesymol a dilys a gaiff eu reportio o dan y polisi hwn. Os nad ydych yn siŵr a yw eich pryderon yn gymwys i gylch gorchwyl y polisi hwn (er enghraifft, os ydych chi'n amau tor-cyfraith ond rydych yn ansicr), rydym yn eich annog i ofyn am gyngor gan Gyfarwyddwr Gweithredol.

4.3 Gallwch gael cyngor cyfrinachol gan gorff annibynnol o'r enw Public Concern at Work (PCAW) ar sut i weithredu. Mae manylion cyswllt PCAW (Public Concern at Work, Elusen Chwythu'r Chwiban Annibynnol) wedi'u darparu yn y Weithdrefn Chwythu'r Chwiban (cyswllt o dan adran 7).

4.4 Yn unol â Deddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, mae gan ClwydAlyn ddyletswydd i gynnal gweithdrefnau a rheoliadau

effeithiol i atal a chanfod achosion o dwyll a gwyngalchu arian, ac ymateb iddynt, ac felly disgwylir i gydweithwyr weithredu fel y llinell amddiffynnol gyntaf, ac maent yn cael eu hannog i wneud hynny drwy roi gwybod am unrhyw bryderon cyn gynted â phosibl gan ddefnyddio'r llwybrau chwythu'r chwiban cyfrinachol a nodir yn y Polisi hwn. Os oes amheuaeth o drosedd, gallai ClwydAlyn gael ei dal yn atebol yn droseddol petai gweithiwr cyflogedig, asiant neu unigolyn cysylltiedig yn twyllo er budd y sefydliad ac nid oes gweithdrefnau atal twyll digonol yn eu lle.

4.5 Fel landlord cymdeithasol cofrestredig, mae gennym ddyletswydd i amddiffyn arian cyhoeddus, cynnal y safonau uchaf o ran uniondeb a gweithredu mewn ffordd dryloyw yn ein holl weithrediadau. Mae gan ein cydweithwyr gyfrifoldeb i godi pryderon pan fyddant yn amau, neu'n dod yn ymwybodol o unrhyw achos o dwyll, gwyngalchu arian, llwgrwobrwyo neu fathau eraill o droseddau economaidd. Mae hyn yn cynnwys materion a allai beri pryder o ran methiant i atal trosedd twyll fel rhan o Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol. Byddwn yn ymdrin â phob datgeliad didwyll yn ddifrifol, ac yn ymchwilio iddo'n briodol a bydd unigolion yn cael eu hamddiffyn rhag unrhyw fath o ddial am godi eu llais yn unol â'r Polisi hwn. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban hwn yn rhan allweddol o'n fframwaith atal twyll gan ei fod yn cynnig llwybr diogel a chyfrinachol i weithwyr cyflogedig, contractwyr a rhanddeiliaid godi pryderon am achosion a amheuir o ymddygiad twyllodrus neu anfoesegol.

## 5 Cyfrinachedd

5.1 Gwneir pob ymdrech i gadw manylion unigolyn sy'n gwneud datgeliad o dan y polisi hwn yn gyfrinachol, o leiaf nes bydd unrhyw ymchwiliad ffurfiol wedi dechrau. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, oherwydd natur yr ymchwiliad neu'r datgeliad, mae'n bosibl y bydd yn rhaid datgelu manylion

amdanoch. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn trafod y rhesymau pam mae'n angenrheidiol datgelu manylion o'r fath.

5.2 Er mwyn amddiffyn uniondeb yr ymchwiliad, gofynnwn i unigolion sy'n mynegi pryder i gadw eu pryderon yn gyfrinachol a pheidio â datgelu gwybodaeth am y sawl sy'n gysylltiedig.

## 6 Amddiffyn a Chymorth

6.1 Ni fydd y sawl sy'n codi pryderon dilys er budd y cyhoedd o dan y polisi hwn yn cael ei ddiswyddo ac ni fydd o dan anfantais mewn unrhyw ffordd. Os ydych yn credu eich bod ar eich colled o ganlyniad i godi eich pryderon, dylech roi gwybod i'r ymchwilydd ar unwaith.

6.2 Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 a Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd yn llywodraethu'r broses o ddatgelu gweithgareddau yn y gweithle a'u bwriad yw amddiffyn y rhai sy'n chwythu'r chwiban am arfer gwael rhag bod ar eu colled na chael eu diswyddo'n annheg o ganlyniad. Nid yw Datgelu er Budd y Cyhoedd yn gymwys i Aelodau'r Bwrdd, Preswylwyr na phobl sy'n ymgeisio am swyddi gyda ClwydAlyn; fodd bynnag, bydd pryderon a gaiff eu codi gan Aelodau'r Bwrdd, Preswylwyr neu ymgeiswyr swyddi yn cael eu trin yn yr un modd â datgeliadau cymwys gan staff. Os ydych chi'n aelod staff ac mae pryderon yn ymwneud â chwythu'r chwiban wedi effeithio arnoch, gallwch gael mynediad i raglen cymorth gyfrinachol, am ddim i weithwyr cyflogedig ClwydAlyn, y ceir manylion amdani yma. Os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, gofynnwch i'ch rheolwr llinell, yr ymchwilydd neu eich Arbenigwr Pobl.

Os nad ydych yn cael eich cyflogi gan ClwydAlyn ond mae pryderon yn ymwneud â chwythu'r chwiban yn effeithio arnoch, gofynnwch i'r ymchwilydd pa gymorth sydd ar gael i chi.

## 7 Gweithdrefn a Reportio

Mae'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban ar gael (HR-P-37) yma.

Caiff achosion Chwythu'r Chwiban eu reportio i'r Pwyllgor Sicrwydd.

## 8 Cyfeiriadau

Polisi Atal Gwyngalchu Arian (GOV-POL-05) (cliciwch yma)
Datganiad Caethwasiaeth Fodern ClwydAlyn (troednodyn ar y wefan) (cliciwch yma)
Polisi Cwynion (GOV-POL-19) (cliciwch yma)
Canllawiau ar Gymorth i Ddatrys Gwrthdaro (HR-G-60) (cliciwch yma)
Polisi Diogelu Oedolion a Phlant (HR-G-39) (cliciwch yma)